# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Hydref 2015

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSiambr@Cynulliad.Cymru

# (289)v2

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

(45 munud) (Tudalennau 1 - 3)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus

(60 munud)

**NDM5838 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2015.

Cyflwynwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deisebau
Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5839 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad datganedig Llywodraeth y DU i gyflwyno model cadw pwerau ar gyfer datganoli drwy Fil Cymru newydd;

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i ddatganoli yng Nghymru ar sail model cadw pwerau;

3. Yn gwrthod unrhyw fodel cadw pwerau sy'n dileu unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan y Cynulliad o dan y trefniadau presennol;

4. Yn galw am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fel y fframwaith cyfreithiol mwyaf dymunol ac effeithiol i gyd-fynd â'r broses o weithredu'r model cadw pwerau ar gyfer datganoli; a

5. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol a phlismona i gyd-fynd â chreu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi adroddiad diweddar Canolfan Llywodraethiant Cymru ac Uned y Cyfansoddiad, 'Darparu Model Pwerau Wedi Cadw'n ôl ar gyfer Datganoli i Gymru', sy'n datgan bod y 'gallai awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fod yn wahanol, ond ni fyddai'n rhaid iddi fod ar wahân i'r awdurdodaeth yn Lloegr';

'Darparu Model Pwerau Wedi Cadw'n ôl Ar Gyfer Datganoli i Gymru'

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 5, dileu 'chreu' a rhoi 'datblygu'.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli pwerau i amrywio treth incwm i Gymru ar y cyfle cyntaf.

## 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM5840 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y gall problemau iechyd meddwl, heb gymorth a thriniaeth briodol, gael effaith ddinistriol ar ansawdd bywyd person, gan effeithio ar ei waith, ei fywyd cartref a'i berthnasau;

2. Yn croesawu diwrnod iechyd meddwl y byd, Amser i Newid Cymru, Gyda’n Gilydd Nawr! ac ymgyrchoedd eraill sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a rhoi terfyn ar stigma a gwahaniaethu;

3. Yn credu bod llawer i'w wneud o hyd er mwyn darparu gwell gofal a chymorth i bobl o bob oedran sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi blaenoriaeth gyfartal i iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn y gyfraith i helpu i yrru newid diwylliannol mewn agweddau;

b) sicrhau bod y gyfran o gyllid ar gyfer iechyd meddwl o fewn cyllideb gyffredinol GIG Cymru yn gyson â'r baich clefydau, gan adlewyrchu maint cymharol yr her iechyd mewn perthynas ag iechyd corfforol;

c) cyflwyno safonau amseroedd aros newydd ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys ar gyfer mynediad at therapïau seicolegol;

d) gwella hyfforddiant iechyd meddwl i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt adnabod a chefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl; ac

e) cyflwyno set graidd o ddata iechyd meddwl, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gweithredu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 4, cynnwys isbwynt newydd:

ystyried clustnodi cyllid i sicrhau bod buddsoddiad digonol mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon parhaus ynghylch gallu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru i ateb y galw.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y bydd toriadau termau real i wariant y GIG yng Nghymru yn ei gwneud yn fwy heriol i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5837 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

Dyfodol adeiladau capeli yng Nghymru

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30 Medi 2015 i'w hateb ar 7 Hydref 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â llifogydd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0347(NR)

**2. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer taliadau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru? OAQ(4)0360(NR)

**3. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i atal llifogydd yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion? OAQ(4)0352(NR)**W**

**4. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithredu yn y sector bwyd a diod? OAQ(4)0363(NR)

**5. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith i amddiffyn yr arfordir ar draeth y gogledd, Llandudno? OAQ(4)0355(NR)

**6. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rywogaethau a warchodir yng Nghymru? OAQ(4)0348(NR)

**7. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau ynni hydro-gymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0364(NR)**W**

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o iechyd y sector moch yng Nghymru? OAQ(4)0361(NR)

**9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith newidiadau i'r tariff cyflenwi trydan ar fusnesau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0353(NR)

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda chyrff trydydd parti? OAQ(4)0362(NR)

**11. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diffiniad o dir cyffredin? OAQ(4)0349(NR)

**12. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am labelu cig o Gymru? OAQ(4)0356(NR)**W**

**13. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar bŵer solar yng Nghymru? OAQ(4)0354(NR)

**14. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael parthed y ffyrdd o wneud gwybodaeth am brofion TB ar ffermydd yn gyhoeddus? OAQ(4)0351(NR)**W**

**15. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli gweithfeydd ailgylchu gwastraff organig yng Nghymru? OAQ(4)0357(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wnaed mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0377(CTP)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(4)0369(CTP)

**3. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i nodi diwrnod rhyngwladol yr undebau credyd? OAQ(4)0372(CTP)

**4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector wirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0371(CTP)

**5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu asedau cymunedol ledled Cymru? OAQ(4)0368(CTP)

**6. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o adfywio trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0370(CTP)

**7. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0375(CTP)

**8. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor ddigonol yw'r cyflenwad tai cymdeithasol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0373(CTP)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant ledled Cymru? OAQ(4)0378(CTP)

**10. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fudiadau gwirfoddol mewn ardaloedd a oedd yn arfer bod yn rhan o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0374(CTP)**W**

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0376(CTP)**W**

**12. Alun Ffred Jones AC (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0379(CTP)**W**

# Crynodeb o Bleidleisiau/Votes Summary

## NDM5839 Plaid Cymru Debate - Motion without amendment
## NDM5839 Dadl Plaid Cymru - Cynnig heb ei ddiwygio

(Wed Oct 7, +0100 2015 - 17:43:52)

| Enw / Name | Plaid Wleidyddol / Political Party | Pleidlais / Vote |
|---|---|---|
| Cadeirydd / Chair | | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Griffiths Lesley | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Sargeant Carl | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Gregory Janice | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Hutt Jane | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Jones Carwyn | Llafur / Labour | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Hart Edwina | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Drakeford Mark | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Andrews Leighton | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Lewis Huw | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Black Peter | Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats | Yn erbyn / Against |
| Williams Kirsty | Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats | Yn erbyn / Against |
| Gruffydd Llyr Huws | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Thomas Simon | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Wood Leanne | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Jones Elin | Plaid Cymru | O blaid / For |
| James Julie | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Evans Rebecca | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Gething Vaughan | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Skates Ken | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Antoniw Mick | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Mewies Sandy | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Chapman Christine | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Rees David | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Isherwood Mark | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Millar Darren | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Graham William | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Davies Andrew R T | Ceidwadwyr / Conservative | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Davies Paul | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Burns Angela | Ceidwadwyr / Conservative | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Roberts Aled | Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Parrott Eluned | Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats | Yn erbyn / Against |
| Powell William | Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats | Yn erbyn / Against |
| Elis-Thomas Dafydd | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Jenkins Bethan | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Whittle Lindsay | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Davies Jocelyn | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Ap Iorwerth Rhun | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Ffred Jones Alun | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Glyn Thomas Rhodri | Plaid Cymru | O blaid / For |
| Thomas Gwenda | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Hedges Mike | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Morgan Julie | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Cuthbert Jeff | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Griffiths John | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Watson Joyce | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Rathbone Jenny | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Neagle Lynne | Llafur / Labour | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Davies Alun | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Davies Keith | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Jones Ann | Llafur / Labour | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Price Gwyn | Llafur / Labour | O blaid / For |
| Asghar Mohammad (Oscar) | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| George Russell | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Haworth Janet | Ceidwadwyr / Conservative | Heb Bleidleisio / Did not vote |
| Davies Suzy | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Finch-Saunders Janet | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Ramsay Nick | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |
| Hussain Altaf | Ceidwadwyr / Conservative | Yn erbyn / Against |

**O blaid / For: 37**

**Ymatal / Abstain: 0**

**Yn erbyn / Against: 14**
**Cyfanswm / Total: 51**